# EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2022

**Rhif 90 – Deuawd Cerdd Dant 19 – 25 oed**
'Rhosyn Gwyn' – Geraint Davies

Eisteddfod

## RHOSYN GWYN

**Ma' nhw'n deud fod serch yn afon sydd yn boddi pawb o'i flaen,**
**Ma' nhw'n deud fod serch yn wayw sydd yn brathu'n syth o'r wain,**
**Ma' nhw'n deud fod serch yn difa ac yn sigo'r galon wan,**
**Ond mi wn fod serch yn hedyn a flodeua yn y man.**

**Dim ond enaid heb lawenydd sydd yn ofni mentro dawns,**
**Dim ond breuddwyd na all ddeffro sydd yn ofni cymryd siawns,**
**Dim ond calon wedi c'ledu sydd yn methu teimlo briw,**
**A does neb sy'n ofni marw wedi dysgu sut i fyw.**

**Pan fo'r nos yn llethu'r unig, pan fo'r ffordd ymlaen yn hir,**
**Pan fo'r galon wedi drysu ac yn methu gweld yn glir,**
**Cofia'r hedyn yn y gaeaf pan fo'r eira'n gwasgu'n dynn,**
**Cysgu wna nes delo'r gwanwyn i flodeuo'n rosyn gwyn.**

**Geraint Davies (cyf)**